Rhaeadrau rhyfeddol

Trosolwg

Mae'r plant yn troi'n beirianwyr dŵr mewn ardal lle gallant adeiladu, llenwi, arllwys a sblasio dŵr ym mhob man. Mae'n galluogi'r plant i ymarfer eu sgiliau echddygol gan fwynhau profiad synhwyraidd cyfoethog drwy chwarae â dŵr.



Gweithgareddau

Trefnwch ardal pad sblasio a gadewch eitemau y gellir adeiladu â nhw ac a fydd yn arwain y dŵr, e.e. cafnau bargod sy'n golygu y bydd y dŵr yn taro'r hambwrdd tyff islaw ac yn sblasio! Darparwch eitemau llai o faint megis cerrig mân a chyrcs yn ogystal ag offer llenwi ac arllwys. Ceisiwch ddod o hyd i amrywiaeth o eitemau a fydd yn ymddwyn yn wahanol mewn rhaeadrau. Gwahoddwch y plant i ddefnyddio eu dychymyg i adeiladu a chwarae.

Offer

- Dillad ac esgidiau glaw
- Tywelion
- Cafnau bargod a theclynnau i'w dal
- Cynwysyddion/Hambyrddau tyff
- Caniau dyfrhau/jygiau mesur/ cwpanau
- Cyrcs
- Cerrig mân
- Hwyaid sy'n arnofio
- Ffynhonnau solar
- Teclynnau chwistrellu planhigion

Deilliannau dysgu

- Sgiliau echddygol manwl: gweithio ar gryfder y bysedd, y dwylo a'r arddyrnau wrth osod ac wrth drin a thrafod eitemau llai o faint.
- Sgiliau echddygol bras: gweithio ar y cyhyrau mwy o faint wrth drin a thrafod yr eitemau mwy o faint y bydd y dŵr yn disgyn drwyddynt.

Symud y dysgu yn ei flaen

Babanod – defnyddiwch gynhwysydd/hambwrdd tyff ag ychydig o ddŵr ynddo gydag eitemau sy'n arnofio, er mwyn archwilio â'n dwylo a gweithio ar gydsymud rhwng y llygaid a'r dwylo.
Plant bach – trefnwch hambwrdd dŵr â chafnau bargod llai o faint y gall hwyaid deithio ar eu hyd pan fydd dŵr yn cael ei arllwys. Anogwch y plant i sblasio â'u dwylo ac i archwilio eitemau ar waelod y cynhwysydd yn ogystal â theganau sy'n arnofio.